# <u>Hanes Bethlehem, Gwaelod-y-garth</u>

**<u>(neu Bethlehem, Pentyrch, fel y cyfeirid ato ar y cychwyn)</u>**

**<u>1832 – 2023</u>**

**<u>[*Atgynhyrchiad o’r hyn a gyhoeddwyd o fis i fis yn “Tafod Elai”,*</u>**

**<u>*wrth ddathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol.*]</u>**

**<u>(Gweler rhifynnau Mai – Rhagfyr 2023)</u>**

**<u>O “Tafod Elai” rhifyn mis Mai 2023:</u>**

Yn y dechreuad…

…yn ystod mis Mehefin eleni bydd Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn dathlu 150 mlynedd ers agor yr adeilad presennol.

Er cofiwch mai nid dyna lle y dechreuodd yr achos - fe wyr rhai ohonoch fod y Bethlehem gwreiddiol yn dal i sefyll ar y safle lle ‘i codwyd gyntaf (ar waelod Rhiw’r Ceiliog [School Lane]) yn 1832.



Cyn adeiladu y capel gwreiddiol, ‘roedd amryw o drigolion y cylch yn aelodau yng Nghapel Taihirion, ger Rhydlafar, ond gan eu bod yn byw yn agos at eu gwaith – llawer ohonynt ger “*gwaith haiarn Pentyrch*” – “‘*roeddent yn cadw cyfarfodydd gweddio, Ysgolion Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, a phregethu achlysurol, mewn anedd-dai er y flwyddyn 1820, os nad cyn hynny*.”

Mae’n sicr i Ddiwygiad nerthol drwy Forgannwg yn 1829-30 fod yn “*ysgogiad i griw o rhyw 12-15 benderfynnu adeiladu y capel yng Ngwaelod-y-garth, a chafodd pedwar-ar-ddeg o aelodau ollyngdod o’r Taihirion i ddyfod yma i ymffurfio yn eglwys. Darfu i rai o aelodau y Groeswen, a gyfaneddent yn yr ardal, ymuno a hwy*.”

Yng nghylchgrawn “Yr Efangylydd”, rhifyn Ebrill 1832, y ceir yr hanes yma am agor y Bethlehem gwreiddiol:-

“*Ar y trydydd a’r pedwerydd o Fawrth 1832 agorwyd addoldy newydd perthynnol i’r Annibynwyr a elwir Bethlehem wrth ‘Forge’ Pentyrch….y mae’r Bethlehem hwn yn gangen o’r Taihirion ac i fod dan ofal gweinidogaethol D(avid) Jones. Mae’r Deml hon yn adeilad hardd a chyfleus i addoli, a chan ei bod wedi ei hadeiladu mewn ardal lluosog ei thrigolion, gobeithio y caiff llaweroedd les tragwyddol yn y Deml newydd*.”

O nodiadau (di-enw) oedd ym meddiant y diweddar Barchedig Rhys Tudur, cyn-weinidog y capel (1974 – 1984), ceir y sylwadau canlynol:-

"*Ymhen ychydig gyda blwyddyn wedi agoriad y capel, darfu Mr David Jones ei gysylltiad a'r ddau le, a symydodd i ardal Abertawe, ac yn fuan wedi hynny cymerodd ofal yr eglwys yng Nghlydach.*

*Dilynwyd ef yn y Taihirion a Bethlehem gan Mr John Lewis yn nechrau y flwyddyn 1834, a bu yma hyd ddechrau 1837.*

*Yn niwedd yr un flwyddyn, urddiwyd Mr David Davies i fod yn weinidog yn y Taihirion ac yma, ond darfu ei gysylltiad ef a'r ddau le yn gynnar yn y flwyddyn 1838.*

*Wedi hynny buwyd yn agos ddwy flynedd yn byw ar weinidogaeth achlysurol.*

*Yn nechrau 1840, urddwyd Mr Lemuel Smith i weinidogaethu yn y Taihirion a Bethlehem. Wedi dwy flynedd o lafur llwyddianus bu farw y gweinidog ifanc a gobeithiol hwn.*

*Wedi marwolaeth Mr Smith rhoddodd eglwys Bethlehem ei hun dan ofal Mr John Jones, mewn cysylltiad a'r Rhydri, a than ei ofal ef y mae wedi bod ers deng mlynedd ar hugain bellach, a'r achos wedi ychwanegu nerth mawr yn nhymor ei weinidogaeth. Cafodd y capel ei helaethu ddwywaith yn y tymor hwn, ac y mae yn fwriad yn bresennol i adeiladu capel helaethach a phrydferthach…..*

*Mae yma yn awr eglwys gymharol lluosog a chref iawn, wrth ystyried fod eglwysi o'r un enwad yn agos iddi ym mhob cyfeiriad. Nid ydym yn gwybod am ddim nodedig a gymerodd le yn hanes yr eglwys hon amgen iddi gael ei bendithion a mesur helaeth o'r adfywiad grymus a deimlwyd yn y rhan fwyaf o eglwysi Cymru yn 1859 a'r flwyddyn ganlynol*."

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r Bethlehem presennol yn 1872, ond yn drist iawn ni chafodd Mr John Jones weld cwblhau'r adeilad.

*"'Roedd John Jones yn fab i Mr Methusalem Jones, gweinidog yr eglwys ym Methesda, Merthyr Tydfyl. Fe'i ganwyd yn 1813, a dechreuodd bregethu yn 1831. Priododd yn ifanc, gan amddifadu ei hun o "fanteision addysg ragbaratoawl" ond "tyfodd i fod yn bregethwr grymus, poblogaidd a defnyddiol iawn". Urddwyd ef yn weinidog ar gapel bychan Ebenezer yn y Rhydri ar ddydd Mawrth y Pasg 1838, ac fe ymhelaethodd ei ofal i gynnwys Bethlehem yn 1842. Gwasanaethodd y ddwy eglwys tan 1866, pryd y rhoddodd ofal Rhydri i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i Fethlehem, a'r gangen a ffurfiesid ganddo yn Nhongwynlais. Tua dwy flynedd cyn ei farwolaeth bu mewn enbydrwydd mawr am ei fywyd trwy i un o waedlestri yr ysgyfaint dorri. Gwellhaodd ychydig ar ol hynny, ond ni allodd bregethu nemawr o'r pryd hwnnw hyd derfyn ei oes. Bu farw wedi hir nychdod ar Fehefin 14, 1872, a chladdwyd ef ym mynwent y Groeswen. Cafodd Mr a Mrs Jones fagu deg o blant…a dau ohonynt, sef David a Methusalem yn weinidogion yr efengyl.*

*Yr oedd Mr Jones yn ddyn mwy ei gorff na'r cyffredin, ac yn nodedig o luniaidd a chadarn ei ymddangosiad. Yr oedd ganddo lais llawn, mwyn, ac effeithiol iawn. Llefarai bob amser yn y cywair lleddf, ac fell yr oedd ei swn yn gyfaddas iawn i doddi teimladau ei wrandawyr."*

A dyna ddod a ni yn daclus at ddechrau ar yr addoli yn yr adeilad presennol, a rhag i'r rhai craff ohonoch gymeryd cipolwg ar y garreg sydd ar dalcen y Capel a son mai 1872 sydd ar y garreg yn y fan honno, a'ch bod chi felly flwyddyn ar ei hol hi yn dathlu, dyma'r adroddiad o "Y Tyst a'r Dydd" - 13 Mehefin 1873.

“***Agoriad Bethlehem, Pentyrch:***

*Mae y Bethlehem hwn wedi ei adeiladu mewn man hyfryd iawn – llawer gwell ma na’r un y safai yr hen gapel arno. Llwch, baw, a swn peirianau oedd oddiamgylch yr hen gapel, ond coed prydferth, a swn adar y nefoedd yn canu oddirhwng eu cangau sydd yn amgylchynu y newydd. Capel trymaidd ac anghyfleus oedd yr hen, ond capel ysgafn a gwir gyfleus yw y newydd.*

*Adeiladwyd yr hen gapel fwy na ddeugain mlynedd yn ol, a chafodd ei helaethu ddwy waith.*

*Nid oes ond rhyw bedwar yn fyw heddiw o’r rhai a ddechreuent yr achos ym Mhentyrch, sef J Russell, George Pike, Thomas Powell a’r Parch. W Russell, Tongwynlais.*

*Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun y 1af a’r 2il cyfisol.*

*Yr oedd y cynulliad yn anarferol o fawrion trwy y dydd, a’r awel ddwyfol yn esmwyth chwythu trwy bob peth, nes ei gwneud yn hyfryd iawn i fod yn bresennol.*



*Cynllunydd y Capel newydd oedd un W Evans, Eglwys Newydd, a’r adeiladydd oedd Mr Williams, Bronll(w)yn Villa (?), ac yn wir , mae’r gwaith yn anrhydedd i Mr Williams. Gwyddom o’r blaen fod Mr Williams yn weithiwr cryf a da, ond ni ddeallais o’r blaen ei fod yn meddu ar gystal taste. Yr oeddwn yn synnu clywed fod capel mor rhagorol wedi ei adeiladu mor rhad, yn enwedig wrth ystyried y pris sydd ar bod peth yn awr. Costiodd y cwbl £847 6s 10c. Casglwyd cyn, ac yn yr agoriad £271 14s 11 a 1/2c, ac felly mae yn aros £575 11s 10 a 1/2c, ond beth yw hynny rhwng cynifer?*

*...Arhosed y gogoniant gyda’r eglwys barchus yn y Bethlehem newydd, a llawer o bechaduriaid gaiff deimlo’r nerthoedd dwyfol yn y babell hardd hon. [JM]”*

**O "Tafod Elai" rhifyn mis Mehefin 2023:**

"*A dyna ddod a ni yn daclus at ddechrau ar yr addoli yn yr adeilad presennol… Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun y 1af a'r 2il cyfisol [mis Mehefin 1873.]"*

Yn sgil marwolaeth y Gweinidog, y Parchedig John Jones, ym mis Mehefin 1872, bu'r Bethlehem newydd heb weinidog hyd at yr 16eg o Fehefin 1874, pryd y gwahoddwyd Mr Morgan Charles Morris (ganed 6ed o Awst 1845 ger Salem, Bow Street, Ceredigion), myfyriwr yng Ngholeg Coffadwriaethol Aberhonddu, yno i wasanaethu.

'Roedd*, yn ol "Y Tyst a'r Dydd" (rhifyn 6ed o Fawrth 1874), "…wedi cael galwad unfrydol oddiwrth eglwys Bethlehem, Pentyrch, a'i fod yntau wedi ei hateb yn gadarnhaol. Yr ydym yn llawen fod yr eglwys yn debyg o gael dyn ieuanc mor addawol*."

Ymestynodd ei weinidogaeth ef hyd Sulgwyn 1880, pryd y'i denwyd yn weinidog i Salem, Coedpoeth, ger Wrecsam. Yn ddiweddarach dychwelodd i fod yn weinidog yn Ton, Ystrad, Morgannwg yn 1882.

Mae'n amlwg ei fod yn ddarlithydd penigamp, ac yn adnabod ei gynulleidfa, gan i "Y Tyst a'r Dydd" (22 Medi 1876) gofnodi fel a ganlyn:-

"*Nos Sadwrn, Medi y 9fed, traddodwyd yma ddarlith neillduol o dda gan y Parch M C Morris, gweinidog y lle, ar y testun canlynol – "Y gweithiwr, ei iawnderau, ei ddyletswyddau, a moddion ei ddyrchafiad" Digon yw dyweyd i ni gael boddhad mawr yn y darlithydd a'i ddarlith. Hefyd, ni gawsom ein boddhau yn fawr yn y Cadeirydd, sef y Parch T Rees (M.C.) Ffynnon Taf. Fe fyddai'n fantais fawr i bob gweithiwr gael clywed y ddarlith hon, oblegid mae ynddi bethau sydd yn werth eu clywed, yn enwedig i'r collier….Yr oedd yr elw yn myned at ddileu dyled y capel. Hir oes i Mr Morris i fyned yn mlaen gyda phob ymdrech o'i eiddo."*

Fe gofiwch fod dyled o dros £575 yn aros wedi adeiladu'r capel, ond yn fwy perthnasol o ran y ddarlith oedd iddi gael ei thraddodi rhyw 9 mis yn unig wedi trychineb Glofa'r Lan, pryd y collodd dwsin o ddynion a phlant eu bywydau (12 oed oedd oedran Moses Llewellyn, yr ieuengaf i'w ladd yn y ddamwain!) ar fore'r 6ed o Ragfyr 1875. (Bu farw 4 arall o'u hanafiadau yn ddiweddarach.)

Dadorchuddiwyd cofeb ar y safle, sydd rhyw ddau can llath o'r Capel, yn 2012.

[Nid oes gwybodaeth gennyf a oedd unrhywun o'r colledion yn aelodau ym Methlehem ar y pryd, ond un o'r rhai a laddwyd yn y ddamwain oedd Abraham Phillips, goruchwyliwr (overman) yn y Lofa, ac un o ddisgynyddion Shon o'r Lan. Gadawodd weddw a chwech o blant. Gwyddom, serch hynny, bod teulu'r Phillipiaid a chyswllt agos a Bethlehem, a bod Ann Gray, gor-nith i Abraham Phillips, wedi bod a rhan yn nadorchuddio'r gofeb ar safle'r lofa.]

Â'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2024, diddorol nodi y bu i'r Parchedig M.C Morris ennill coron (a £25) yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd 1893, am gyfansoddi arwrgerdd i "Rhys ap Tewdwr". ('Roedd wedi dod yn ail deirgwaith yn olynol cyn hyn yn Eisteddfodau Wrecsam, Bangor ac Abertawe.)

Bu farw ar y 7fed o Dachwedd 1900, ac fe'i claddwyd ym mynwent y Groeswen "*ymhlith llu o feirdd a phregethwyr Cymru*" (gweler "Pebyll Seion" dan olygiaeth Tawelfryn – Caerdydd 1904).

Wedi ymadawiad y Parchedig M C Morris, aeth tair blynedd wedi hynny cyn galw'r Parchedig Owen Lewis Roberts [1862 – 1924], yn weinidog. Fe'i ganwyd yn Bryngwran, Ynys Mon.

*"Llawenydd gennym eich hysbysu fod yr eglwys hon wedi rhoddi galwad daer ac unfrydol i'r Parch O.L.Roberts, Penarth, Sir Drefaldwyn, a'i fod yntau wedi ei hateb yn gadarnhaol. Dechreua ar ei weinidogaeth yr 28ain o Hydref. Bydded bendith Duw ar yr undeb i fod er daioni.*" [O "Y Tyst a'r Dydd" 5 Hydref 1883.]

Cofnodir Cyfarfodydd Sefydlu'r Parchedig O L Roberts yn "Y Tyst a'r Dydd" 14eg o Ragfyr 1883, fel a ganlyn:-

*"Cyfarfod Sefydliad – Nos Fawrth a dydd Mercher, Tachwedd 27ain a'r 28ain, cynhaliwyd cyfarfod sefydliad y Parch O.L.Roberts, gynt Pen-arth, Maldwyn, yn weinidog i'r eglwys uchod.*

*Dechreuwyd nos Fawrth trwy ddarllen a gweddio gan Mr D Phillips, Coleg y Bala, a phregethwyd gan y Parchn J.R.Davies, Caerdydd ac E Roberts, Byrwydd, Maldwyn.*

*Dydd Mercher, am 10, dechreuwyd gan y Parchn E Thomas, Glan-taf, a phregethwyd gan y Parchn E Roberts, Byrwydd, a M Jones, Tynewydd, Rhondda.*

*Am ddau, cymerodd y Cyfarfod sefydlu le, pryd y dechreuwyd gan y Parch J.T.Evans, Bodringallt, a phregethwyd gan y Parchn T J Rees, Carno, Maldwyn, J Davies, Taihirion, a M.C. Morris, Ton-Ystrad – y cyntaf ar "Natur Eglwys", yr ail ar "Ddyletswydd y gweinidog", a'r trydydd ar "Ddyletswydd yr Eglwys".*

*Gofynwyd am yr arwyddion arferol o du yr eglwys a'i gweinidog gan y Parch D.G.Rees, Eglwysnewydd, pa rai a roddwyd yn unfrydol a boddhaol gan y naill a'r llall ohonynt. Yna offrymwyd yr urdd-weddi gan y Parchn W Rees, Glandwr.*

*Nos Fercher, dechreuwyd gan y Parchn T J Rees, Carno, a B Davies, Treorci. Cafwyd cyfarfodydd da o'r dechrau i'r ddiwedd. Yr oedd yr Efengyl yn cael ei phregethu gyda blas a dylanwad. Cafwyd arwyddion amlwg fod Duw yn foddlon i'r undeb….Llawenydd genym hysbysu fod arwyddion amlwg fod yr eglwys a'r gweinidog yn hoff iawn o'u gilydd, a bod Mr Roberts wedi ymaflyd yn ei waith o ddifrif.*

*Y mae am y gauaf wedi sefydlu yma i ni fel dynion ieuanc Gymdeithad Ddiwylliadol, yng nghyd a Dosbarth Beiblaidd. Cynhelir y naill un wythnos, a'r llall yr wythnos arall. Yr ydym eisoes wedi cael ysgrifau diddorol ar y pynciau canlynol:- "Gwerth cymeriad", a "Pa un yw y mwyaf dylanwadol- y Pwlpud neu ynte y Wasg?". Mae lliaws o bynciau da eraill wedi eu nodi allan, a disgwyliwn ysgrifau da arnynt.*

*Felly nis gallwn lai na dymuno i'r undeb fod yn un hir, heddychol, a thangnefeddus, fel y gweler daioni lawer yn y lle, a Duw trwy hynny i gael ei ogoneddu."*

Er y gobaith uchod am dymor gweinidogaethol hir, dim ond tan y 6ed o Fehefin 1886 y parhaodd yr uniad, gan i'r gweinidog symyd i gymeryd gofal o eglwys ifanc yn Cathays, Caerdydd [sef Capel Minny Street].

Yn "Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory", sef y gyfrol a gyhoeddwyd yn 2009 yn cofnodi hanes "Eglwys Annibynol Minny Street, Caerdydd 1884 – 2009", dyfynir y Parchedig O.L.Roberts yn cydnabod yr alwad yno fel a ganlyn:- "*Yr wyf yn cofio y nawr y ddiwrnod y daeth Mr Tom Roberts, y Diacon hynaf hefyd Ysgrifennydd yr eglwys i'm cyfarfod i orsaf Walnut Tree (Ffynnon Taf) i gyflwyno yr alwad i mi, penderfynais dderbyn yr alwad, a symydais yn nechrau Gorffennaf y flwyddyn honno, yr un pryd yr oeddwn hefyd yn cymeryd cam pwysig arall mewn bywyd sef priodi gwraig, sef Miss Annie Thomas…Nid oedd y cyflog a roddid i mi ond £100 y flwyddyn ac yr oedd yn fenter pur fawr i geisio cadw ty a byw mewn tref fel Caerdydd ar swm o'r fath…* ".

Ymadawodd yn 1891 am Benlan, Pwllheli, ac yna'n 1897 symydodd i'r Tabernacl, Lerpwl, lle bu'n weinidog am 27 mlynedd hyd ei farw yn 1924.

Bu'n Gadeirydd (bellach "Llywydd") Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1922, ac ef oedd y cyntaf i dderbyn Beibl Cadeirydd yr Undeb bryd hynny.

[Nodir felly bod tri o weinidogion a chyswllt a Bethlehem, Gwaelod-y-garth wedi llenwi'r swyddogaeth honno dros y blynyddoedd – y ddau arall oedd y Parchedig R G Berry [1943], ac yn fwy diweddar y Parchedig R Alun Evans [2014].

Olynydd y Parchedig O.L Roberts ym Methlehem oedd y Parchedig Tomos Jenkyn Rees, a bu'n weinidog ar yr eglwys rhwng 1891 ac 1895. Ymunodd yno o Garno, a symydodd o Fethlehem ar ddiwedd ei gyfnod i Langatwg.

Ac o sylwi'n fanwl ar y cofnod uchod am sefydlu'r Parchedig O L Roberts, fe welwn bod rhan nid ansylweddol wedi bod yn y gweithgareddau hynny gan y Parchedig T J Rees, Carno, a thybed nad hynny a arweiniodd at yr alwad iddo yntau fel olynydd iddo?

Eto, yn eithaf diddorol, yn y cyfnod di-weinidog, rhwng y ddau a enwir uchod, y dechreuwyd yr arfer o gynnal Cymanfa Ganu ar Ddydd Gwener y Groglith ym Methlehem, yn 1888, a pharhaodd hynny yn ddidor am ganrif a mwy.

Fel y dywed cyflwyniad i Raglen dathlu Canmlwyddiant y Gymanfa yn 1988:-

"*Pan 'greodd' Ieuan Gwyllt y Gymanfa Ganu yn 1859, nid oedd yn bosibl iddo fod wedi rhagweld ei phoblogrwydd mawr a'i hapel barhaol.*

*Yn wreiddiol yr oedd chwe chapel Annibynol yn yr "Undeb Canu Cynulleidfaol": Bethlehem (Gwaelod-y-garth), Glandŵr (Nantgarw), y Watford (Mynydd Caerffili), Bronllwyn (Pentyrch), Y Winllan (Nantgarw), a'r Groeswen."*

Bethlehem oedd yr olaf i gynnal y Gymanfa, a da dweud y byddwn yn cynnal Cymanfa Ganu fel rhan o ddathliadau 150 oed ar yr 11eg o Fehefin (am 5:00 p.m.), dan arweiniad Eilir Owen Griffiths.

Hefyd, yn ol yr adroddiad a ymddangosodd yn y Tyst ar y 25ain o Fai 1894, yn ystod gweinidogaeth y Parchedig T J Rees yr adeiladwyd yr ysgoldy newydd (y Festri) sydd wedi ei adeiladu y tu ol i'r Capel.

"*Llywyddwyd ar yr achlysur gan y Parchedig T J Rees. Wedi i'r llywydd ddechrau trwy weddi, a rhoi anerchiad agoriadol, Cawsom adroddiadau a chân gan amryw o blant yr Ysgol Sul, ac areithiau hefyd gan rai o'r brodyr. Cawsom gyfarfod difyr, bywiog ac adeiladol. Y mae yr ysgoldy yn adeilad rhagorol. Eistedda dros 200 yn gysurus ynddo. Y mae gan Bethlehem adeilad i fod yn falch ohono. Y peth nesaf sydd i'w wneud ydyw talu y £400 y mae yr adeilad wedi ei gostio. Dechreuir yn y cyfeiriad hwn yng nghyfarfod y Sulgwyn. Prynhawn yr un dydd, bu y Gobeithlu yn cael eu te blynyddol, ac wedi hynny cafwyd gorymdaith yn rhifo tua 100, yn cael eu blaenori gan y Seindorf ddirwestol newydd sydd wedi cychwyn yn y gymdogaeth.Yr oedd pob un yn gwisgo medal, ac yn argraffedig arno – Gobeithlu Bethlehem. Yr oedd yr olwg arnynt yn brydferth iawn.*
*Gall eglwys Bethlehem fod yn falch iawn o'r dynion ifainc sydd yn gweithio mor egniol yng nghyfeiriad dirwest a'r Ysgol Sul yn y lle. Dyma'r modd y treuliwyd gennym Ddydd agoriad ein hysgoldy newydd.*"

**<u>O "Tafod Elai" rhifyn mis Gorffennaf 2023:</u>**

Ac yna, wedi cyfnod y Parchedig T J Rees y gwelwyd cychwyn ar gyfnod maith gweinidogaeth y Parchedig Robert Griffith Berry (1897 tan 1945)!

"*Ar gymhelliad Mr Thomas Millward o Waelod-y-garth, trefnwyd Sul i Mr Berry wasanaethu Bethlehem. Pregethodd yng Ngwaelod-y-garth am y waith gyntaf fel myfyriwr ar y 14eg o Fehefin 1896; a thrachefn ar Sul Gorffennaf 26ain, 1896. Ymserchodd yr Eglwys cymaint ynddo fel y penderfynodd ei alw'n weinidog*."

Mae copi o "alwad" y Parchedig R G Berry (1869 – 1945) ar gael, ac fe'i cynhwyswyd, fel a ganlyn, yn rhifyn 32 o'r "Garth Domain", Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Pentyrch a'r Cylch:-

**"Galwad Eglwysig oddiwrth yr Eglwys Annibynol yn Bethlehem, Pentyrch, Morgannwg, i Mr R G Berry, Llanrwst, Gogledd Cymru, Awst 23, 1896.**

*Annwyl Frawd,*

*Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ar ran yr Eglways Annibynol Bethlehem, Gwaelod-y-garth, Pentyrch, ar ol ymgynghori a'n gilydd ac hefyd a'r Arglwydd, yn anfon i chwi yr alwad unfrydol hon i ddyfod i lafurio yn ein plith yng ngwaith mawr a phwysig y Weinidogaeth, gan hyderu yn gryf fod hyn yn unol ag ewyllys Pen Mawr yr Eglwys ac y tueddir chwi dan Ei arweiniad Ef i gydsynio a'n cais, ac y bydd eich dyfodiad i'n plith yn cael ei ddilyn a chyflawder bendith Efengyl Crist.*

1) *Yr ydym yn ymrwymo i dalu i chwi £5/10/0 y mis, sef y swm £71/10/0 yn flynyddol, at eich cynhaliaeth.*
2) *Caniateir i chwi un Sul rhydd o bob mis, ond hyd y mae yn bosibl disgwylir i chwi fod yn bresenol yn Bethlehemar bob Sul pen mis, a pheidio absenoli eich huno'n pulpud ddau Sul yn olynol oddieithr pan y bydd amgylchiadau arbennig yn galw am hynn.*
3) *Bydd ty'r Capel (ar ol y flwyddyn bresennol) at eich gwasanaeth pan y byddwch yn dewis myned i fyw ynddo ac am y rhent flynyddol o £5.*

*4) Bydd mis o rhybudd yn ofynol oddiwrthych chwi neu oddiwrth yr Eglwys os bydd ymadawiad yn cymeryd lle.*

*Yr ydym yn dymuno i chwi hi roes, nerth ac iechyd i weithio dros Grist a'r Efengyl a phan ddaw yr adeg i chwi noswylio bydded i chwi dderbyn y gymeradwyaeth uchaf o enau y Meistr Mawr.*

*Arwyddwyd dros yr Eglwys,*

*Joseph Millward; George Thomas; Charles Davies; John Foxall;*

*Jonah Miles; Philip Phillips; Evan Watkins. (Diaconiaid)"*

Atebwyd y cais yn gadarnhaol, ac mae'r gweddill yn rhan o hanes Bethlehem, oherwydd iddo aros yn weinidog ar yr eglwys hyd ei farwolaeth yn 1945.

Pregethodd ei bregeth gyntaf fel Gweinidog ym Methlehem ar y 13eg o Ragfyr 1896.

Yn "Y Tyst a'r Dydd" 13/01/1897, ceir hanes cyfarfodydd ordeinio'r Parchedig R G Berry:-

"*Ar y dyddiau Sul a Llun, Ionawr 3ydd a'r 4ydd, cynhaliwyd cyfarfodydd ordeinio Mr R G Berry, Llanrwst, yn weinidog ar eglwys Annibynol Bethlehem, Pentyrch.*

*Cafwyd ar y Sabbath dair Pregeth gan y Parch W. Cynwyd Williams, Llanrwst, cyn-weinidog Mr Berry.*

*Ar y Llun, yn oedfa'r bore, llywyddodd y Parch W I Morris, Pontypridd. Gwnaeth y Cadeirydd gyfeiriad tyner at farwolaeth sydyn Dr Herber Evans, yr hwn a ddisgwylid i gymeryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r Proffeswr Davies MA, Bangor, yr hwn hefyd, oherwydd marwolaeth y Doctor, oedd yn absennol. Ar gynigiad y Parch J Williams, Hafod, ac eiliad y Parch W Rees, Glandwr, pasiwyd cydymdeimlad a Mrs Evans a'r perthnasau.*

*Dechreuwyd y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn W E Evans, Tabor, Jonah Miles, Gwaelodygarth, R A James, Tongwynlais a W Hughes, Barry.*

*Boreu Llun, pregethodd y Parch M C Morris, Ton-ystrad, ar Natur Eglwys. Gofynwyd y cwestiynau gan y Parch J Davies, Efail-isaf, yr hwn, wedi cymeryd yr arwydd arferol, a offrymodd yr urdd-weddi.*

*Pregethwyd siars i'r gweinidog gan y Parch W Cynwyd Williams, ac i'r un cyfeiriad gan y Parch T J Rees, Llangatwg. Cyflwynodd y Parch Cynwyd Williams, ar ran ei eglwys, bwrs o aur i Mr Berry, gan roddi iddo glod uchel, i'r hyn yr atebodd yntau yn fyr.Terfynwyd gan y Parch D G Rees, Whitchurch.*

*Yn y prynhawn a'r hwyr, pregethodd y Parchn T Hughes, Minny-street, Cathays, J Williams, Hafod, H M Hughes, Caerdydd, a J R Davies, Docks. Yr oedd yn bresennol nifer lluosog o weinidogion a phregethwyr, ac amryw leygwyr wedi dyfod o gryn bellder. Cyfarfodydd llwyddianus iawn*."

Cyhoeddwyd "Cofiant" i R G Berry, o waith y Parchedig Huw Ethall, gan Wasg John Penry yn 1983, bron ddeugain mlynedd wedi ei farwolaeth.

Mae ei hanes yn llenydda, ac fel dramodydd, yn ogystal a'i waith fel gweinidog, wedi ei gynnwys yn y gyfrol werhfawr yma.

Mae un o gyn-aelodau (a diacon) Bethlehem, y diweddar Ben Howell, yn cael ei ddyfynnu fel a ganlyn ynddo:-

“*…fod ganddo atgof byw yn ei blentyndod o weld cylch (halo) uwch ben y gweinidog yn y pulpud yn gyson*.”

A T.W Thomas wedyn, un arall o blant yr eglwys yng nghyfnod Berry, yn datgan mai ef oedd:- “y *dyn gorau a gyfarfum i erioed*.”

Ar y 13eg o Awst 1903, priododd R G Berry â Hannah Watkins, Tŷ Newydd, Gwaelod-y-garth, un o un ar ddeg o blant. Brawd iddi oedd tad Vernon Watkins y bardd. Ganed eu merch, Margaret, ar y 17eg o Awst 1904.

Bu farw ar y 13eg o Ionawr 1945, ac fe’i claddwyd ar yr 16eg o’r mis ym Mynwent Eglwys Sant Catwg, Pentyrch. Ar garreg ei fedd torrwyd y geiriau canlynol – “*Gweinidog da i Iesu Grist a llenor coeth*.”

Cyhoeddwyd cyfrifon yr eglwys am y flwyddyn 1944 ym mis Mawrth 1945, ond ychwanegwyd yn helaeth i’r cyhoeddiad a’i droi’n “*Rhifyn Coffa ein diweddar Annwyl Weinidog Y Parch. Robert Griffith Berry M.A.*”

Cyflwynwyd “*Annerchiad y Diaconiaid*” ar gychwyn y cyhoeddiad, yn nodi mai yn 1940 y cyflwynwyd “Adroddiad“ diwethaf yr Eglwys, ac o’r herwydd cynhwyswyd ynddo restr “Marwolaethau, Priodasau a Bedyddiadau” oddiar y flwyddyn honno.

Gwelir cyfeiriad at fedydd Mary Barbara Edwards, merch Rhys a Joanna Edwards (Ionawr 1943) ynddo – ac mae Mary yn aelod ffyddlon ym Methlehem hyd y dydd heddiw.

Nodir hefyd ymysg y priodasau i Meirion Castle a Nansi Llewellyn gyfnewid eu llwon priodas ar yr 11eg o Dachwedd 1944, a bydd y rhai hŷn ohonom yn cofio’n annwyl iawn am y teulu yma hefyd, a’u bod wedi cyflwyno blodau bob Sul i’w gosod yn y Set Fawr am ddegawdau lawer.

Yn y daflen ceir hefyd gofnod manwl o ddydd angladd R G Berry, gan gynnwys braslun o’r deyrnged a gyflwynwyd gan un o’r diaconiaid, T W Thomas, Pentyrch.

“*Mr Berry yw’r unig weinidog a gofir yma gan y mwyafrif ohonom. Ef a’n bedyddiodd ac a’n derbyniodd i gyflawn aelodaeth o’r Eglwys; ef a’n priododd ac a gladdodd ein hanwyliaid.,,,Ni welwyd erioed berffeithiach cyfuniad o Weinidog a’i Eglwys, Bugail a Phraidd, Pregethwr a Chyfaill, Ysgolheictod a Symlrwydd, ie yr Hiwmorist a’r Realist, ag a geid yng nghymeriad y boneddwr Cristnogol hwn*.”

[Fe gofiwn i TW ei hun barhau a’i wasanaeth fel diacon ym Methlehem hyd ei farwolaeth yn 1999.]

Terfynwyd y gwasanaeth angladdol yn y capel trwy weddi gan y Parchedig Ddr Elfed Lewis. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan gyfaill i R G Berry, y Parch Wilfred Lewis, Ficer y Plwyf.

[Syndod oedd sylwi yn y fersiwn brint o “Y Bywgraffiadur Cymreig 1941 – 1950”, ac yn y fersiwn ar-lein cyfredol, y cyfeiriad at R G Berry yn cael galwad *“…o* ***Jerusalem****, Gwaelod-y-garth, Sir Forgannwg...”* – oes modd cywiro’r camwri yma tybed?]

Bu’n rhaid disgwyl ychydig, hyd at 1947, cyn i’r Parchedig Gwilym Morris, Penydarren, (1910 – 1988) gael ei sefydlu’n weinidog ym Methlehem.

Dyma beth o’r hanes a groniclwyd (yn ddienw) am ei alw:-

"*Daw neges i'n sirioli ar ddechrau blwyddyn fod yr hen eglwys enwog hon wedi estyn galwad i'r Parch Gwilym Morris, Penydarrenn ac y mae yntau wedi derbyn.*

*Fel y gwyr pob Cymro a Chymraes, dyma faes bugeiliol y diweddar annwyl Barch. R G Berry M.A. am yn agos i hanner can mlynedd. Anodd meddwl am unrhyw gyfuniad hapusach rhwng Gweinidog ac Eglwys am gyfnod mor faith. Bu yma "gwlwm cariad cywir a pherffaith" ar hyd y blynyddoedd a gellir yn haws dychmygu y golled ddifrifol i'r eglwys a'r cylch pan fu farw Mr Berry ddwy flynedd yn ol. Collodd yr eglwys hon tua'r un adeg, rai o'i haelodau a'u swyddogion mwyaf blaenllaw. Cyfeiriwn at y diweddar Mr E.J Phillips, y dramodydd enwog ac arweinydd y gân am ymhell dros hanner can mlynedd…*

*Hyfryd yw clywed bod ysbryd mor siriol a gobeithiol yn ffynnu yma a bod yr eglwys wedi llwyddo i ddenu un o weinidogion mwyaf addawol yr enwad i'n bugeiliol. Un o blant Hirwau yw y Parchedig Gwilym Morris. Wedi "ysgolia" yn yr Ysgol Elfennol ac yn Ysgol Uwchraddol Aberdar, aeth i Goleg Myrddin a'r Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef yn weinidog ym Mhisga a Phantycrugiau yn Hydref 1935. Wedi treulio pum mlynedd yno yn fawr ei barch yn yr ardal, derbyniodd alwad i Horeb, Penydarren lle y mae hyd yn awr yn gweinidogaethu gyda llwyddiant arbennig. Ar wahan i bregethu- ac yn ol ei dystiolaeth ei hun – yn gwbl is-raddol daw eisteddfota – ond gwyddom mai fel gweinidog da i Iesu Grist y sonir amdano yn y ddau gylch y mae wedi bod ynddynt…*

*Wrth llongyfarch a dymuno'n dda felly i'r Eglwys a'r Parch Gwilym Morris, erfynniwn fendith gyfoethog y Nef ar yr uniad a llwyddiant mawr ar waith y Deyrnas yn y cyfnod newydd.*"

'Roedd y Parchedig Gwilym Morris – "…(yn) *fardd a llenor adnabyddus ac yn bregethwr gwell na'r cyffredin ei hun…*" yn ol Huw Ethall yng Nghofiant R G Berry.

Ychydig flynyddoedd cyn dechrau ei weinidogaeth ym Methlehem, daeth yn agos iawn at gipio coron Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llandybie, 1944, am bryddest ar y testun "Yr Aradr" (ffugenw: *Bardd y Gweunydd*). Un arall a chysylltiad (anuniongyrchol) a chapel Bethlehem oedd yn fuddugol bryd hynny, sef J M Edwards, Y Barri, tad y diweddar Emyr Edwards!

Bu'n llwyddianus ar gyfansoddi soned i "Y Bwa" yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Y Bala yn 1967, gan ddefnyddio'r ffugenw "Eglwys Ilan" bryd hynny i ganu i hen bont enwog Pont y Pridd.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn 1947, a bu'n gwasanaethu yma hyd at 1967.

Wedi ymadawiad y Parchedig Gwilym Morris bu'r eglwys heb weinidog tan 1974.

Pryd hynny y daeth y Parchedig Rhys Tudur yn rhan o hanes Bethlehem.

Daeth llythyr oddiwrth y Parchedig Gwilym Morris iddo ym mis Chwefror 1974, yn cynnig cynghorion iddo fel y gweinidog newydd:-

"*Clywais y newyddion da gan ein cyfaill Denzil John yr wythnos diwethaf…*

*Y mae'n hyfrydwch mawr i mi gael eich cyfarch fel gweinidog etholedig Bethlehem, Gwaelod-y-garth..*

*Y tu ol i'r tŷ y mae aceri meithion o goed o bob math, ac os tân glo fydd yn gwresogi eich aelwyd, awgrymaf i chwi brynu llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog oherwydd wedi storm fe rydd y goedwig ei chymwynas…*

*Mae yno adar o bob rhywogaeth, a gwae pob cysgadur, oherwydd y mae côr y wawr yn ei anterth yn ei dymor..*

*Ond y mwynhad pennaf a gefais yng Ngwaelod-y-garth oedd pregethu'r Efengyl a gallaf dystio na chewch yn unman wrandawiad mwy astud a chynulleidfa mor werthfawrogol. A boed hyn yn brofiad i chwithau drwy gydol eich gweinidogaeth yno."*

**<u>O "Tafod Elai" rhifyn mis Medi 2023:</u>**

Gadawyd pethau yn rhifyn mis Gorffennaf o'r Tafod gyda'r awgrym yma, a wnaed wrth i Weinidog ifanc, newydd, gyrraedd Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn 1974, i gychwyn ar ei ofalaeth gyntaf:-

*"Y tu ol i'r tŷ y mae aceri meithion o goed o bob math, ac os tân glo fydd yn gwresogi eich aelwyd, awgrymaf i chwi brynu llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog oherwydd wedi storm fe rydd y goedwig ei chymwynas…"*

Ac os ydych wedi dyfalu ers hynny a fu iddo dderbyn yr her, yna fe allaf eich sicrhau chi yn ddiymwad, fod y Parchedig Rhys Tudur nid yn unig wedi prynu "*llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog*", ond ei fod hefyd a llond sied o dŵls, a'i alluogai i ymgymryd a phob gwahanol fath o dasgau o gwmpas y Mans a'r Capel – mynnwch air ag Elin Tudur, ei weddw, os am wybod mwy!

A faint ohonoch sy'n cofio mai rhannu ei weinidogaeth rhwng dau gapel a wnai Rhys, gan iddo gael ei ordeinio, a'i sefydlu, yn Weinidog ar Eglwysi Annibynol Bethlehem, Gwaelod-y-garth (am 2:00 p.m.), a'i sefydlu yng Nghapel Heol Hafren (Severn Road), Caerdydd (am 7:00 p.m.), ar ddydd Iau yr 28ain o Fawrth 1974?

Ac nid oedd yn syndod i neb mai ei dad, y Parchedig Brifathro R Tudur Jones, oedd a gofal yr Ordeinio ym Methlehem, a'r sefydlu yn Heol Hafren.

Traddododd y cyn-weinidog, y Parchedig Gwilym Morris, bregeth ar "Y Weinidogaeth" fel rhan o'r oedfa sefydlu ym Methlehem.

Caeodd Heol Hafren ei drysau yn 1979, ond fe ychwanegwyd dau gapel arall, sef Sardis, Pontypridd, a'r Tabernacl, Ynysybwl at yr ofalaeth bryd hynny, a pharhaodd y trefniant yna tan i Rhys droi ei olygon tua'r Bala yn 1984.




Mewn erthygl ddadansoddiadol o'i eiddo yn rhifyn Ebrill 1984 o "Cwlwm Bro", sef cylchlythyr Cyngor Cymuned Pentyrch, dywed fel a ganlyn am Bethlehem:-

*"…Mewn cyfnod o dros 150 o flynyddoedd dim ond deg o weinidogion sydd wedi ei gwasanaethu a byr iawn oedd y cyfnodau rhyngddynt. 95 mlynedd yn ol y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf. Bryd hynny un o nifer o eglwysi'r cylch oedd Bethlehem. Erbyn hyn un o ddwy ydyw. Yn 1851 'roedd 131 o blant yn yr Ysgol Sul ac yr oedd hyfforddi plant yn cael lle amlwg gan yr Eglwys. Dros y blynyddoedd bu'r Eglwys, nid yn unig yn Ganolfan Gristnogol, ond hefyd yn Ganolfan i'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal. Mae ei gorffennol wedi ei fritho gan eisteddfodau, dramau, cantatas, darlithoedd, corau ac amryw o weithgareddau eraill, yn dangos cyfoeth a lled y diwylliant Cymraeg.*

*Wrth edrych 'mlaen i'r dyfodol ni ellir anghofio'r gorffennol. Mae llawer o'r hyn sy'n cael ei wneud yn y presennol yn waith adeiladu ar sylfaen a osodwyd gan ein cyndeidiau…Ar un cyfnod 'roedd Bethlehem yn un o nifer fawr o eglwysi Cymraeg o bob enwad yn y cylch hwn, erbyn hyn y maent i gyd wedi dod i ben a Bethlehem wedi etifeddu eu "mantell". Y dyddiau hyn mae'r rhan fwyaf o drigolion yr ardal yn trafaelio allan ohoni i weithio, mae anghenion diwyllianol yn cael eu porthi gan gyfryngau soffisdiedig Caerdydd, mae'r bywyd cymdeithasol i'w gael yno hefyd. Yn sefyll yn erbyn y llif hwn y mae Bethlehem, yr hyn a welwn ni bellach yw pobl o'r tu allan yn dod i ymuno yn yr addoliad o faesdrefi Caerdydd yn ogystal a'r pentrefi amgylchynol i ni yma. Mae'n sefyllfa hollol wahanol i 150 o flynyddoedd yn ol. Ond gyda'r newid hwn y mae galwadau newydd yn cael eu gwneud ar yr Eglwys ac y mae disgwyl iddi gyflawni gwaith gwahanol e.e. addysg grefyddol i oedolion, grwp i famau*

*a'u plant, dysgu Cymraeg ac ymarfer yr iaith i blant ac oedolion, a dosbarth gwaith llaw. Mewn oes lle'n bygythir ni'n feunyddiol gan alanastra'r bom niwcliar mae gan yr Eglwys ei rhan yn y gwaith i geisio osgoi hynny ac y mae Bethlehem wedi gwneud safiad clir a di-amwys yn erbyn arfau niwcliar a thros heddwch. Drwy ei gwahanol gysylltiadau a chasgliadau ceisia'r Eglwys hefyd ymateb i'w chyfrifoldeb dros y cleifion, y tlodion a'r anghenus yn ein plith a thramor.*

*Cred rhai mai rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol yw'r Eglwys. Ond ym mhob oes y mae plant Duw yn dymuno addoli a dod at eu gilydd i offrymu'r addoliad hwnnw Iddo. Maent yn dymuno cymuno, bedyddio'r plant a chlywed Gair Duw yn cael ei bregethu. Maent yn dymuno cael Gweinidog i'w harwain a'u goleuo, eu hyfforddi a'u dysgu ac i fugeilio ochr ysbrydoli i fywyd yr Eglwys. Nid adeilad yn unig yw Bethlehem ond cymdeithas fyw yng Nghrist…Mae'n bodoli i wasanaethu'r Cymry Cymraeg yn benodol ac i wasanaethu'r gymdogaeth i gyd yn gyffredinol. Dyna oedd bwriad y teidiau yn 1832 ac y mae'r Eglwys yn dal yn ffyddlon i'r un weledigaeth…*

*Bu 1984 ar y gorwel ers nifer o flynyddoedd a llawer yn ofni beth a ddeuai yn ei sgil. Ond ym Methlehem mae'r ofn wedi cilio a gobaith newydd yn y dyfodol wrth i'r Eglwys weld bendith Duw arni a llwyddiant yn ei gwaith. Os Duw a'i myn, gallwn edrych ymlaen i wasanaethu'r gymdeithas am 150 o flynyddoedd eto, a mwy."*

Mewn erthygl gan y Parchedig Ifor Rees, a gyhoeddwyd (ni wn ym mha gylchgrawn) yn nechrau'r nawdegau, gwelir ategu maint y dasg a wynebodd Rhys, a mesur ei lwyddiant, tra'n trafod ysgrif ddeifiol, ar ddau bentref cyfagos, o waith yr Athro W J Gruffydd.

Galwodd yr Athro'r pentrefi yn bentre'r Bryn a phentre'r Pant.

"*Yn y Pant 'roedd yr olaf o 'r capeli Cymraeg newydd droi yn Saesneg ei hiaith, ond ym mhentre'r Bryn, ar draws afon Tâf, 'roedd y Gymraeg yn dal ei thir "cystal ag unrhyw blwyf cyffredin ym Môn neu Geredigion".*

*'Roedd hwyl fawr ar oedfaon a chyfarfodydd llenyddol y capel, a pherfformid yno ddramau Cymraeg safonol, a gyfansoddid gan awdur lleol. Pentre'r Pant, wrth gwrs oedd Ffynnon Taf a phentre'r Bryn oedd Gwaelod-y-garth*."

Medd Ifor Rees - "*Ddiwedd y pumdegau pan ymaelodais ym Methlehem…'roedd y Gymraeg ar drai yn y pentref, a mawr fu llafur y gweinidog (Y Parchedig Gwilym Morris) a Mr John Charles Davies, ac eraill o'r ffyddloniaid wrth ddysgu'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg. 'Roedd talcen caled iawn gyda nhw. Ond llwyddwyd i gadw'r oedfaon a'r Gymanfa Ganu flynyddol yn drwyadl Gymraeg…Eto onibai am ddyfalbarhad John Charles, a'i debyg, ni fyddai'r un cnewyllyn o Gymriegrwydd ar gael yno pan aeth Mrs Gruffydd John Williams ac eraill i frwydro dros sefydlu Ysgol Gymraeg yn y pentref. Y symydiad hwnnw, mewn gwirionedd, a drawsnewidiodd fywyd capel Bethlehem – ynghyd a'r ffaith bod cynifer o deuluoedd ifainc Cymraeg eu hiaith wedi dod i fyw i'r cyffiniau. Y ffaith yw nad capel pentref yw Bethlehem mwyach, ond eglwys bro, a'i dalgylch yn eang iawn. Daw'r rhieni ifainc a'u plant o'r Creigiau, a Phentyrch, Radur, Llandaf a'r Eglwys Newydd, Ffynnon Taf, Rhiwbeina a Thornhill.*

*Ysywaeth mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn y mae nifer y brodorion sy'n gallu mynychu'r oedfaon, a hynny oherwydd henaint a llesgedd – "prin rai, lle 'roedd gynnau gant". Ond y*

*maent hwythau, yn fwy na neb, yn ymlawenhau bod holl weithgareddau Bethlehem yn para'n gyfan gwbl Gymraeg – a'r oedfa fore Sul yn gysurus lawn.*"

Yn ystod gweinidogaeth Rhys y gwelwyd cegin newydd yn cael ei chodi, a'r Festri yn cael ei moderneiddio, a dyma engraifft o'r brwdfrydedd heintus oedd ynglwm wrth yr ymgyrch i godi arian i dalu am y gwaith.

*Dilynwyd y Parchedig Rhys Tudur gan y Parchedig Thomas James Davies – yr unigryw TJ – yn 1985 - ond stori arall yw honno!*

**O "Tafod Elai" rhifyn mis Hydref 2023:**

Cafodd T J ei eni yn 1919 yn Sarnau Fawr, Llanfihangel-y-creuddyn ger Aberystwyth, yr hynaf o saith o blant.

Derbyniodd ei addysg yn ysgol y pentref, Coleg Trefeca ger Aberhonddu a Choleg y Brifysgol, Aberystwyth, gan raddio yn y Celfyddydau ac mewn Diwinyddiaeth.

Yn 1947 dechreuodd ei yrfa fel gweinidog yng Nghapel y Betws, Rhydaman.

Treuliodd 1959 yn yr Union Theological Seminary yn Efrog Newydd ac ennill gradd STM (Master of Sacred Theology).

Yn 1963 ymunodd â staff Cymdeithas y Beiblau.

Dywedodd un o'i gyfeillion agos, y Parchedig W J Edwards, ei fod yn ddyn oedd wedi dysgu llawer o'i brofiadau.

"*Roedd e wedi datblygu'n weinidog hollol wahanol i weinidogion eraill y cyfnod, yn anghyfundebol.*

*"Dyn â gweledigaeth oedd e, yn mentro o hyd. Fe fyddwn i'n ei alw'n arloeswr mawr*."

[Rhan o gofnod oddiar safle Newyddion BBC Cymru yn 2007]

A dyma'n stori ni ym Methlehem, Gwaelod-y-garth:-

Sefydlwyd TJ yn Weinidog rhan-amser ar bnawn Sul yr 21ain o Ebrill 1985.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu am 2:00 p.m. gyda'r Parchedig Ifor Rees yn Llywyddu, a'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar y pryd, a gofal y sefydlu.

Ond 'roedd un dasg ychwanegol i'w chyflawni, a dyma sut y bu i golofnydd "Tafod Elai" rhifyn mis Mai 1985 nodi hynny:-

*"…a chyflwynwyd TJ ar ran y Presbyteriaid i frawdoliaeth Annibynia gan y Parchedig D H Owen. Cyn diwedd y cyfarfod 'roedd y gynulleidfa i gyd yn wybyddus o natur wardrob TJ, yn ogystal a thyfiant ei datws a stad ei ardd, a chafwyd un cyfrinach bellach amdano gan y*

*Parchedig Eirian Rees ar ran Cyfundeb Dwyrain Morgannwg. A wyddech chi mai fel 'Club Owner' yr adnabyddir ef ar gardyn prynu mewn warws yng Nghaerdydd…?*

*…Cynhaliwyd cyfarfod yr hwyr dan lywyddiaeth y Gweinidog, a gwahoddwyd y Parchedig Cynwil Williams, Heol y Crwys, i draddodi'r bregeth.*

*Rhwng y ddwy oedfa, 'roedd te croeso i'w gael yn y festri, ac am yn ail a llymaid o de a bara menyn cafwyd cyfarchion ar ran merched Bethlehem gan Eleri Jones, a sgwrs hamddenol gan Mari Jams, Llangeitho ar ran pobl Sir Aberteifi., ie, y cwbl ohonynt…*

(*Ac os mai mewn ffigyrau moel mae mesur llwyddiant mewn unrhyw faes pa well ystadegau na'r canlynol i weinidog ar ei Sul cyntaf wedi'r sefydlu – bedyddio pump o fabanod, a phump arall y Sul canlynol, a derbyn saith o aelodau newydd i'w eglwys!")*

Mae stori'r "alwad" i Fethlehem yn rhan o chwedloniaeth y lle erbyn hyn, ond mae hi'n werth ei hailadrodd (a dyma un fersiwn o'r stori!):-

"*'Roeddwn newydd ymgymryd a'm swyddogaeth o ofalu am y "llyfr bach" ym Methlehem yn Hydref 1984, a bylchau i'w llenwi rhwng hynny a diwedd y flwyddyn.*

*Penderfynnais fynd ar ofyn hwn a llall ac arall er mwyn rhoi trefn ar yr oedfaon, a ffoniais rif TJ i weld a oedd Sul gwag ganddo.*

*Siarsiais ar y ffon, jest i greu argraff, i mi fod yn gwrando arno'n pregethu yng Nghapel Pen-rhiw yn Sain Ffagan ychydig wythnosau ynghynt.*

*Ar Ragfyr yr 16eg 1984, cadwodd oed yn ol yr addewid, a chawsom chwip o bregeth ganddo (er nad ydwi'n cofio fawr ddim ohoni heddiw, heblaw am y son am y llygod yn yr organ).*

*Ar fin y ffordd y tu allan i'r capel wedi'r oedfa fe'i holwyd gan rywun/rhywrai-*

*"Pam na ddowch **chi** atom ni TJ"*

*Yr ateb a gafwyd oedd,*

*"Sneb wedi gofyn i mi"*

*Fe'i gwahoddwyd yn y fan ar lle, ac mae'r gweddill yn hanes ………….."*

Gweinidogaeth o gariad a chonsyrn a gafwyd a Bethlehem hithau yn tyfu o ran niferoedd a dealltwriaeth.

Cyfnod pryd y cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg newydd ym 1988, a dyma gofnod o rifyn mis Ebrill 1988 (rhifyn 26) o "Tafod Elai":-

*"Ar fore Sul Mawrth 6ed perfformiwyd pasiant "Camp y Campau" a ysgrifenwyd gan Emyr Edwards i ddathlu pedwar can mlwyddiant Beibl William Morgan.*

*'Roedd cast o 25 a chôr yn portreadu cyfres o olygfeydd yn olrhain hanes William Morgan o'i enedigaeth hyd at gyflawni ei gamp o gyfieithu'r Beibl.*

*Ar ddiwedd y gwasanaeth **rhanwyd 102 o Feiblau ymysg plant a phobl ifanc y capel**."*

Cyfnod lle bu'n bedyddio'n helaeth a'r direidi'n cael ei gofnodi fel hyn yn y gwasanaeth adfent a ddarlledwyd gan Radio Cymru yng nghyfnod y Nadolig 1995:-

*"Croeso i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, yn falch eich bod wedi galw heibio.*

*'Rydych wedi galw ar adeg brysur. 'Rydym yng nghanol cyfres o fedyddiadau. Un bythefnos yn ol, tri heddi ac un Sul nesa. Pump i gyd.*

*Fe welwch ei bod yn dymor wyna yma, a chredwch fi, does gan yr wyna un dim i'w wneud ag hwsmonaeth y bugail !"*

'Roedd cynnwys y cylchlythyr blynyddol i'r aelodau yn bregeth ynddynt eu hunain.

Yn un,

*"Sylwi fod hwn neu hon yn absennol, ar dro am fwy nag un Sul. Chredwch chi fyth fel mae'ch presenoldeb yn gysur, yn ysbrydoliaeth, yn orfoledd. Teulu yw'r eglwys a phan fo un aelod o'r teulu ar gyfeiliorn, am ba reswm bynnag, yna ma siom yng nghalon yr aelwyd. Sedd wag yn ddolur. A beth am y deigryn yn llygaid y Gwaredwr? Un arall o'r disgyblion yn cefnu."*

Mewn un arall,

*"Un o'r golygfeydd hyfryta' posibl yw gweld cynifer o blant yn deud eu hadnodau. Sylwch fy mod i'n dweud, ac nid yn darllen. Oherwydd pwysig yw dysgu ar y co'. Try'n waddol gwerthfawr yn y man..Efallai fod cymaint o blant yn chwanegu at lefel y decibels yn yr oedfa! Dyna 'fe, does dim swn mewn mynwent, ac ni fynnai neb ohonom fod mewn lle felly. 'Ma cryn wahaniaeth rhwng Bethlehem, Gwaelod-y-garth ar fore Sul a mynwent, fel y gwyr y mwyafrif ohonoch, a thestun diolch yw hynny."*

Eto mewn llythyr arall,

*"Fe ddywedodd rhywun am waith llwyfan .... Does dim rhannau bach, dim ond actorion bach. A gellir addasu hwnna at eglwys. Does dim rhannau bach. Nid oes raddau mewn aelodaeth eglwys. Teulu ydym a phob un yn cyfri. Pob un yn wahanol, bid siwr, a phob un a'i gyfraniad unigryw ei hun. Y cwestiwn sy'n codi yw, Odi pob un yn chware ei ran ?"*

A chware'n rhan fu raid inni.

Llwyfannwyd dramau R G Berry ar achlysur dathlu 50 can mlynedd ei farwolaeth yn sgil ei frwdfrydedd.

Ymwelwyd a Phantycelyn a Threfecca yn ei gwmni a chafodd Slimbridge a Thraeth Aberafan ein croesawu ar drip Ysgol Sul yn sgil ei ddymuniad.

Pan yn 70 mlwydd oed, cyflwynwyd cyfres o englynion iddo a baratowyd ar y cyd gan y dosbarth cynganeddu a oedd yn cwrdd yn y Capel, a dyma un ohonynt:–

<u>I T J:</u>

Gwywo pan ddêl y gaea' – yw y drefn,
Ond wir ef flodeua;
Ym mêr hwn deil miri'r ha'
O'n rhengoedd ef yw'r i'enga'.

Cynhaliwyd Gwasanaeth i ddathlu a diolch am 15 mlynedd o weinidogaeth ar Orffennaf 23, yn y flwyddyn 2000.

Roedd yn awdur toreithiog, ac un o'i gyfrolau enwog oedd “Martin Luther King” gafodd ei chyhoeddi yn 1969.

Yn y rhagair dywedodd:-

"*Bydd raid inni ddysgu byw gyda'n gilydd. Hynny a fynnai Martin Luther King, a gweddïo yr wyf y gall y gyfrol hon, rywfodd neu'i gilydd, hyrwyddo cydfyw heddychol a chreadigol rhwng y gwahanol liwiau a chenhedloedd."*

Cyflwynodd ei gyfrol olaf o ysgrifau sef “Ysgub o’r Wisgon”, a gyhoeddwyd ym 1996, i Fethlehem, Gwaelod- y- garth *“am iddynt roi ail wynt i mi”.*

Crynhoddd Rhys Dafis, Ysgrifennydd yr Eglwys ar y pryd, ei gyfraniad fel “Ha Bach Mihangel” yn ei gywydd iddo yn 1998:-

*“Eich ha bach, fu’n llonni’ch byd,*

*Fu’n haf i ninnau hefyd;*

*Yn eisiau’n heneidiau ni,*

*Mae ei wres am oroesi*

*‘N ernes i’r gwanwyn nesa,*

*A bore’r Haul a barha”*

Bu Eirlys ac Esyllt yn gefn mawr iddo trwy gydol ei Weinidogaeth, ac maent i’ll dwy (a Tomos ac Anna) yn parahau yn aelodau gwerthfawr, gweithgar a ffyddlon ym Methlehem.

Hunodd, yn 87 mlwydd oed, yn Ysbyty Llandochau ar y 30ain o Fehefin 2007, ac fe roddwyd ei lwch i orwedd ym mynwent Capel Seion, yng Ngheredigion.

**O “Tafod Elai” rhifyn mis Tachwedd 2023:**

Wrth i gyfnod hynod llwyddianus gweinidogaeth rhan-amser y Parchedig T J Davies ddirwyn i ben, ‘roedd aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn teimlo’n ddigon hyderus i newid gêr ac yn awyddus i chwilio am weinidog llawn-amser. ‘Roedd canrif newydd a milflwydd newydd ar y gorwel, ac yn ddi-os ‘roedd hynny yn sbardun ychwanegol i’w penderfyniad.

‘Roedd Sul Ionawr yr 2il, 2000, wedi ei glustnodi fel gwasanaeth olaf T J fel ein Gweinidog, gyda cyfarfodydd o werthfawrogiad o’i wasanaeth i’w cynnal ar nos Sadwrn y 29ain a dydd Sul y 30ain o Ionawr. Ond oherwydd anhwylder, bu gorfu eu gohirio hyd Sul yr 23ain o Orffennaf 2000.

O fewn ychydig wythnosau i hynny, am 2:00 p.m. ar ddydd Sadwrn y 23ain o Fedi 2000, cynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Gareth Evans Rowlans fel Gweinidog llawn-amser Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

TJ oedd yn Llywyddu yn ystod y cyfarfod hwnnw, a chafwyd cyfraniadau gan nifer o'r aelodau a phlant yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd anerchiad gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones, gyda'r Parchedigion Richard Lewis a Carys Ann, a Mr David Parry hefyd yn cymeryd rhan. Ifan Roberts, yr Ysgrifennydd ar y pryd, fu'n gyfrifol am adrodd hanes yr alwad, a Wynford Ellis Owen a gyflwynodd groeso Bethlehem i'r Gweinidog newydd.

'Roedd lluniaeth wedi ei baratoi wedi'r cyfarfod – "*Croeso i bawb ohonoch at y byrddau yn y Festri ac yn y babell ar y lawnt*" sydd ar waelod y daflen swyddogol!

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Cylch ym Mehefin 2002. Cyhoeddwyd "Llawlyfr Ymwelwyr" ar gyfer yr achlysur, oedd hefyd, yn ol y clawr, yn cynnwys "*Braslun o Hanes Diweddar yr Eglwysi sydd yn gwahodd*".

Cadeirydd "Swyddogion Pwyllgor Lleol Caerdydd a'r Cylch" oedd y Parchedig Ddr R Alun Evans.

Ifan Roberts fu'n paratoi hanes Bethlehem ar gyfer y Llawlyfr, a cheir llun o'r Parchedigion T J Davies a Gareth Evans Rowlands ar frig yr erthygl.

Dyma fel y cofnodir peth o'r hanes ganddo:-

"*Mae hi bron yn ddwy flynedd bellach ers i ni weld sefydlu y Parchedig Gareth Evans Rowlands yn weinidog arnom. Bu rhai o'r swyddogion ar deithiau meithion dan lenni'r nos i Geredigion i'w gymell i ddod i'n plith. Ein gofid pennaf oedd ein diffyg profiad ym maes galw bugail – wedi'r cwbl, dim ond pump oedd Bethlehem wedi ei gael yn y ganrif flaenorol, gan gynnwys un arhosodd am hanner can mlynedd! Erbyn gweld, yr oedd Gareth ei hunan yr un môr nerfus ond mae o wedi dysgu dygymod yn rhyfeddol â ni, chwarae teg!*

Fe roddwn ni'r gair olaf i'n bugail:

"*Pan gefais i'r gwahoddiad i ddod yn weinidog i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, ar y pryd roeddwn rhwng dau feddwl, am fod sgidiau T J Davies yn rhai anodd i'w llenwi ac am fod yr eglwys ar gyrrion Caerdydd, a minnau heb ddychmygu y byddwn byth yn gweinidogaethu mor bell i'r de o dan Aberystwyth. Beth bynnag, wedi cytuno i gwrdd â swyddogion Bethlehem mi dderbyniais yn syth oherwydd eu bod i gyd mor ifanc, mor 'easy going' ac yn awchu i weld ffyniant yn eu heglwys – ffyniant a ddeuai wrth gydweithio, rhoi-a-derbyn, 'trial and error', heb unrhyw rygnu na bustachu.*

*Felly dyma ddechrau ar fy ngweinidogaeth ym Medi 2000 ac yn wir, felly mae pethau wedi bod ers i mi ddechrau. Dwi wedi cael yr aelodau yn braf a chartrefol, yn gweithio heb eu hail yn yr eglwys er fod pawb mor brysur ar adegau. Mae'r Ysgol Sul yn ffyniannus dros ben a pheth braf ydi cael rhannu mewn oedfaon hefo'r plant a'u teuluoedd a'u cael mor barod i gymeryd rhan yn yr holl weithgaredd. Mae CAIB sef, Clwb Annibynnol Ieuenctid Bethlehem, yn dal ei dir yn dda a byddwn yn mwynhau nosweithiau Sul hynod ddifyr ac adeiladol am 6:00 yr hwyr.*

*Mae'r ieuenctid yn hawdd ymwneud â nhw – yn barod i siarad a thrafod syniadau, yn agored eu barn a cefnogol i bob arbrawf. Mae criw hŷn hefyd sydd yn y colegau yn galw 'nôl yn*

*gyson a chadw cysylltiad. Peth braf i weinidog ifanc yw cael y criw yma mor hawdd i wneud â nhw a mor barod i fod n rhan o bethau, yn enwedig ar achlysuron arbennig fel y Nadolig. Mae 'na arbrofi wedi bod mewn gwahanol ffyrdd a da ydi dweud fod pawb yn gadarnhaol a pharod i dderbyn amrywiaeth mewn oedfaon a gweithgaredd.*

*A son am weithgaredd mae ymwybyddiaeth gymdeithasol wych yma ond fe allwn hyd yn oed wella ar hynny maes o law. Cydweithir rhwng yr ysgol leol a chymdeithasau fel Clwb y Dwrlyn ac ati. Derbyniais 13 o ieuenctid yn gyflawn aelodau y llynedd, yn fy ail flwyddyn, a 'dwi wedi bedyddio nifer yn barod a bu yma un briodas..*

*Dyna ydi eglwys dda ac eglwys felly ydi Bethlehem – hen griw iawn ydyn nhw a swyddogion gwerth chweil. Dwi'n newydd o hyd, ond os gallwn ni fynd ymlaen gan wella eto ar y rhagoriaethau a dileu unrhyw wendidau, yn a fe fyddwn yn tystio yma ymhell i'r unfed ganrif ar hugain!"*

Serch y bwrlwm a'r brwdfrydedd a fynegwyd yn y datganiad uchod, ymhen dwy flynedd gorfu i'r Gweinidog a'r aelodaeth wynebu her ariannol, a olygodd newid yn nhrefn y weinidogaeth ym Methlehem.

O hynny 'mlaen Gweinidog rhan-amser fyddai gan Fethlehem.

Ac fe groniclwyd y newid ganddo yn ei neges Nadolig yn 2004 fel a ganlyn:-

"*Er na fu y flwyddyn hawddaf yn fy hanes – yn gorfod derbyn ewyllys yr Eglwys, a phenderfyniadau anodd eraill fydd yn effeithio ar fy ngweinidogaeth yma ym Methlehem – rwy'n eiddgar, bellach, i fwrw 'mlaen ag arddeliad i gynllunio ar gyfer dyfodol fydd yn gynhyrfus rwy'n siwr, ond a fydd hefyd gryn dipyn yn wahanol o ran trefn i'r hyn 'rydym ni wedi arfer ag o yn y gorffennol.*

*Os yw'r cynllun newydd o weithredu o fis Ebrill 2005 ymlaen, yn mynd i ddwyn ffrwyth ysbrydol, golyga cymaint a hynny'n fwy o ymroddiad gennych chwi at waith a dyletswyddau'r Eglwys. 'Rwyn hyderus yr ymatebwch yn gadarnhaol i bob gofyn newydd a ddaw i'ch rhan; addawaf innau wneud yr un modd, fel y bydd mwy fyth o lewyrch ar yr Achos yn ein plith – a Duw yn cael Ei Iawn, briod le yng nghanol ein bywydau prysur*."

Bu'n ddiwyd yn ol ei addewid a bu iddo dderbyn deg aelod ifanc newydd yn gyflawn aelodau mewn oedfa Gymun ar y bore Sul cyntaf ym mis Rhagfyr 2005 (gweler y llun isod a ymddangosodd yn "Tafod Elai" rhifyn Chwefror 2006).



*(cefn) Gruffudd John, Carys Lloyd, Heledd Watts, Branwen Hefin, Alys Thomas, Meilir Sion. (blaen) Siwan Lloyd, Fflur Angharad, Y Parch Gareth Rowland (gweinidog), Gwenllian Wyn, Geraint Huws.*

Ond ar fore Sul y 14eg o Fai 2006, cyflwynwyd llythyr o’i eiddo yn mynegi ei fwriad i adael y weinidogaeth o ddiwedd Awst ymlaen.

Cynhaliwyd cyfarfod o ddiolchgarwch am ei wasanaeth ym mis Gorffennaf 2006.

Bu’n rhaid disgwyl hyd at Ionawr 2008 cyn i Weinidog rhan-amser newydd fentro i gysgod y Garth a chynnig arweiniad i gynulleidfa eiddgar Bethlehem am yr wyth mlynedd a ddilynai.

Ond mwy am hynny y tro nesaf!

**<u>O “Tafod Elai” rhifyn mis Rhagfyr 2023:</u>**

Yn y rhifyn diwethaf o Tafod Elai, bu’n rhaid cwtogi peth ar y cynnwys, a bu i’r paragraffau clo yma am weinidogaeth y Parchedig Gareth Evans Rowlands, gael eu hepgor:-

“*Ond ar fore Sul y 14eg o Fai 2006, cyflwynwyd llythyr o’i eiddo yn mynegi ei fwriad i adael y weinidogaeth o ddiwedd Awst ymlaen.*

*Cynhaliwyd cyfarfod o ddiolchgarwch am ei wasanaeth ym mis Gorffennaf 2006.*

*Bu’n rhaid disgwyl hyd at Ionawr 2008 cyn i Weinidog rhan-amser newydd fentro i gysgod y Garth a chynnig arweiniad i gynulleidfa eiddgar Bethlehem am y saith mlynedd a ddilynai.*

A’r Gweinidog hwnnw a fentrodd i’n plith wrth gwrs oedd (ysywaeth, bellach y diweddar) y Parchedig R Alun Evans.

Fe gofnodwyd peth o hanes yr alwad iddo yn y teyrngedau a dalwyd iddo ddydd ei angladd (gweler Tafod Elai Rhifyn 381 Hydref 2023, tud 13/14).

Gair mewn llythyr, dyddiedig y 14eg o Fedi 2007, a anfonodd Ysgrifennydd Bethlehem ar y pryd, Rhys Dafis, i’r aelodau oedd dechrau’r berthynas rhyngom:-

“‘*Rwy’n taro gair i roi newyddion da ichi ynglŷn â’n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem.*

*..., casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili.*

*Gwnaethpwyd ymholiadau, a chael ymateb brwdfrydig ganddo ar unwaith.*

*‘Roedd yn gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol, a chawsom ein llwyr argyhoeddi mai gydag ef y mae’r ffordd ymlaen. Ar yr un pryd, cafwyd cadarnhad gan ddiaconiaid Bethel (Caerffili) o’u cefnogaeth lawn i’w ddymuniad a’u parodrwydd i gytuno trefn ‘rannu a chydweithio’ hwylus er budd y ddwy Eglwys.*

*Mae hyn yn cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem...”*

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, ond yn ôl trefn (anysgrifenedig, prysuraf i ddweud) pobl Bethlehem, bu’n rhaid disgwyl tan y 19eg o Ebrill cyn cynnal y Cyfarfod Sefydlu!

Yn ei eiriau ei hun yng nghylchlythyr y Capel ar y pryd, “Newyddion Bethlehem”, rhifyn Gwanwyn 2008, meddai:-

“*Ganol Ebrill y cynhelir y Cwrdd Sefydlu. Bydd yn dda iawn cael croesawu pawb i’r oedfa honno. Ymhlith y rhai sy’n cymryd rhan bydd brodyr y diweddar Rhys Tudur – Geraint yn Ysgrifennydd yr enwad a Alun yn gymydog yng Nghaerdydd, Huw Ethall, cofiannydd R G Berry ac un sy’n “myned yn iau wrth fyned yn hyn”, Eifion Powell, cyn Brifathro Coleg yr Annibynwyr ac un y bum yn rhannu stafell gydag ef yng Ngholeg Bala -Bangor. Ac yna ddau o “fois Bala-Bangor” – Elwyn Jones, cyn gydweithiwr yn y BBC a chefnogwr tim peldroed Wrecsam, a Dewi Myrddin Hughes, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, a chefnogwr pybyr tim peldroed Abertawe. Yn y fath gwmni does ryfedd bod angen Presbyteriad rhadlon, Cynwil Williams, i fendithio’r cyfan*.”

‘Roedd y geiriau yna yn cwmpasu’r cyfan amdano – y dyhead i fod yn gynhwysol a chartrefol ymysg cynulleidfa newydd, gan sicrhau’r cyswllt rhwng gorffennol a dyfodol y weinidogaeth yng nghysgod y Garth. Y cwlwm rhwng ei gyfeillion - ym myd crefydd a gwaith; ei ddileit mewn peldroed; a’i synnwyr digrifwch yn gweu’n gelfydd trwy’r cyfan.

Bu i Ifan Roberts ail-fyw peth o brofiadau’r Cyfarfod Sefydlu yn ei gyflwyniad wrth i dymor Alun fel ein Gweinidog ddod i ben:-

Meddai – "*Dyna i chi'r llun hwnnw o'r cyfarfod sefydlu - ar y pnawn Sadwrn y collodd y Swans o ddwy gôl i un yn Yeovil Town.*

*Ar yr un diwrnod, yn y Mericia, roedd y Pab Bened yn pregethu yn Eglwys Gadeiriol Efrog Newydd. Ond drwy lwc, wnaeth hynny ddim denu aelodau Gwaelod-y-garth.*
*'Roedd hi'n dŷ llawn yma ar gyfer y cyfarfod sefydlu.*

*O fewn dim wedi hynny, roedd hi'n Gymun Mawr Mis Mai – a golygfa i'w chofio oedd derbyn 13 o aelodau ifanc."*

Wedi ei ymddeoliad, yn un o rifynnau "Gair bach Bethlehem", cylchlythyr y Capel, wele'r dyletswydd, y gwasanaethu, a'r direidi yn amlygu ei hun fel a ganlyn :-

"*Roeddwn i yn y pulpud yn y bore ac yn y gynulleidfa y pnawn. 2013 oedd y flwyddyn, a minnau'n cofnodi - Bethlehem y bore; Hermon Treorci pnawn. Bethlehem y bore, Yr Hendy pnawn. Bethlehem y bore, Jewin pnawn .... Ac ar Chwefror 24ain – Bethlehem y bore, Wembley pnawn [beth ddwedai'r Tadau?].*

*Yn fan'no hefyd fe gafwyd ysbrydoliaeth! Abertawe yn ennill*"

A do, pan ddaeth yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 2014 / 15, fe gyflwynwyd crys peldroed y 'Swans' iddo yn ystod un o'r oedfaon ym Methlehem, gyda'i enw "Evans" a rhif 1 ar ei gefn!

[Ef oedd yr ail weinidog ar Fethlehem i'w ethol i Lywyddiaeth yr Undeb, gan ddilyn y Parchedig R G Berry (a etholwyd yn 1943) i'r swydd. Bu'r cyn-weinidog, y Parchedig O L Roberts, Lerpwl, hefyd yn Llywydd yn 1922.]

"Iesu'r Cymod" oedd teitl ei Anerchiad Lywyddol yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr a meddai:-

"*Diddymu rhaniadau y mae cymod yr Efengyl.*
*Daeth Iesu i'r ddaear i amlygu i ni ffordd o fyw ac o feddwl fyddai'n ein dwyn i berthynas newydd a'n gilydd ac i berthynas newydd a Duw.*
*Casglodd o'i gwmpas griw bach o bobl gyffredin, criw digon gwahanol o ran ei natur.*
*Fe'i hysbrydolodd a'i weledigaeth, ac ymddiriedodd ynddynt.*
*Nid oes gwell ffordd i'r nefoedd na bod yn gymdeithas gariadus, oddefgar a chymodlon..*"

(Trueni na fyddai pobl y Dwyrain Canol (a mannau eraill tros y byd) yn clywed ac yn gwrando ar y geiriau rheini heddiw.)

Aeth bron i flwyddyn o amser wedi ei ymddeoliad cyn i'r eglwys drefnu eu *syrpreis* o gydnabyddiaeth iddo mewn oedfa.

Comisiynwyd Rhys Dafis, un o gyn-ysgrifennydd y capel, i gyfansoddi geiriau, cyfansoddwyd cerddoriaeth gan Ieuan Wyn, enillydd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013, a pharatowyd gwaith celf gan y llythrenwr Ieuan Rees o'r Betws, Rhydaman.

Bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn yn yr oedfa.

"*Dangosaist i'n gynhaliaeth lawn daioni, Cyflwynaist ni i rin porfeydd y Gair;*

*"Dy alwad ddôi i'n harwain; ninnau'n dilyn At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw; Buost Alun inni'n fugail da*,"

Ei ddymuniad oedd i unrhyw dysteb adeg ei ymddeoliad gael ei gyfrannu at weithgareddau elusennol ym maes adfer y galon.

A'i sylw yn y cylchlythyr *Newyddion Bethlehem (Rhagfyr 2014)* wrth ymddeol, dan y penawd gogleisiol "Rhoi Tŵls ar y Bar" :-

"*Be mae clerigwr yn ei wneud wrth ddod i ben y dalar? Rhoi ei goler gron ar astell y pulpud? Ymadrodd mwy ystyriol fyddai "a'r wlad a gafodd lonydd*.

*Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf.*

*Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig.*

*I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!*

*Ond nid gorffen chwaith gan mai fy mwriad yw parhau f'aelodaeth ym Methlehem cyn belled na bydd hynny'n dramgwydd i'm holynydd. Diolch o galon am eich caredigrwydd. ..... Wela i chi flwyddyn nesa, o'r meinciau cefn*."

A bu'n ffyddlon ar y meinciau cefn wedi hynny, hyd y diwedd un, gan bregethu ei bregeth olaf ar y 25ain o Fehefin 2023, fel rhan o'r dathliadau i nodi 150 mlynedd ers agor yr adeilad presennol.

Bu farw ar y 20fed o Awst 2023, a chynhaliwyd y gwasanaethau angladdol ar y 4ydd o Fedi yn Nhŷ Cwrdd Bethlehem, ac yn Amlosgfa Caerdydd.

A dyna ddod a ni at y presennol!

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd ceisio denu "Arweinydd" rhan-amser i fod a gofal am Bethlehem, Gwaelod-y-garth a Bethel, Caerffili, ac fe gynhwyswyd hysbyseb yn y cylchgrawn "Golwg" ym mis Hydref 2014 i'r perwyl hwnnw, ni fu ymateb ffurfiol bryd hynny.

Yn dilyn hyn, penderfynodd Cwrdd Eglwys Bethlehem yn Chwefror 2016, y dylid ail-ystyried y bwriad yma, ac yn hytrach dylid ceisio sicrhau Arweinydd rhan-amser i Fethlehem yn unig.

Mynegodd Delwyn Sion ei awydd i gael ei ystyried ar gyfer y swyddogaeth, ac fe dderbyniwyd y cais yn ffurfiol mewn Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar yr 17eg o Orffennaf 2016.

Wedi cyfnod o fyfyrio a pharatoi, gwasanaethodd yn ei oedfa gymun gyntaf fel Arweinydd ar Sul cyntaf mis Rhagfyr 2016:-

*“…’parhad’ oedd nôd cychwynnol ei arweiniad. Soniodd bod angen symud ymlaen i greu “Eglwys Newydd” yn ein cymdeithas aml-ffydd, aml-ddiwylliant, ond ei bod yn bwysig bod yr eglwys newydd yn parhau a gwerthoedd yr Hen Gapel.*

*Nododd fod un o`i arwyr sef Nelson Mandella wedi rhoi enw ar gymdeithas aml -ffydd/iaith a diwylliant De Affrica, fe`i galwodd yn Genedl yr Enfys. Beth am i ni ym Methlehem anelu at fod yn Gapel yr Enfys, yn agored i feddylfryd a gwerthoedd a gwirioneddau credoau eraill, yn gyffrous ein hagweddu at Foderniaeth a Gwyddoniaeth, ond gwneud hynny heb ddibrisio`n Cristnogaeth ni - ein ffydd sydd wedi`n cynnal a`n cyfoethogi ers cyhyd.”*

Mae’r berthynas rhwng yr Arweinydd a’i braidd wedi datblygu a ffynnu byth ers hynny.



*Delwyn Sion, Gareth Evans Rowlands a’r Parchedig R Alun Evans - y Drindod a fu yn gwasanaethu Bethlehem yn Weinidogion ac Arweinydd ers troad y milflwydd presennol.*